



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 Rhif 3294 (Cy. 216)

2000 No. 3294 (W. 216)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

**Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y
Polisi Amaethyddol Cyffredin
(Modwleiddio) (Cymru) 2000**

**The Common Agricultural Policy
Support Schemes (Modulation)
(Wales) Regulations 2000**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note does not form part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2001, yn gweithredu Erthyglau 4 a 5 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1259/1999 sy'n sefydlu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol o dan bolisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd (OJ Rhif L160, 26.6.1999, t. 113) ("Rheoliad y Cyngor").

Maent yn gymwys i Gymru, ac eithrio mewn perthynas â thaliadau o dan gynllun cymorth IACS, pan fyddant yn gymwys dim ond i'r graddau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn "awdurdod cymwys perthnasol" o fewn ystyr Rheoliadau System Integredig Gweinyddu a Rheoli 1993 (O.S. 1993/1317, fel y'i diwygiwyd olaf gan O.S. 2000/2573).

Mae Erthygl 4 o Reoliad y Cyngor yn caniatáu i'r Aelod-wladwriaethau ostwng symiau'r taliadau o dan y cynlluniau cymorth a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliad hwnnw lle (ymhlith pethau eraill) y mae cyfansymiau'r taliadau a roddir o dan gynlluniau cymorth o'r fath ar gyfer blwyddyn galendr yn fwy na'r terfynau sydd i'w penderfynu gan yr Aelod-wladwriaeth o dan sylw. Yn y Deyrnas Unedig dim yw'r terfyn sydd wedi'i osod, ac mae'r gostyngiad felly'n gymwys i bob taliad o dan y cynlluniau cymorth a bennwyd. Mae'n ofynnol trefnu bod symiau'r gostyngiadau ar y taliadau ar gael fel cymorth Cymunedol ychwanegol ar gyfer unrhyw un o'r mesurau datblygu gwledig a bennir yn Erthygl 5(2) o Reoliad y Cyngor, i'r graddau y maent yn gymwys i'r Aelod-wladwriaeth berthnasol.

These Regulations, which come into force on 1st January 2001, implement Articles 4 and 5 of Council Regulation (EC) No.1259/1999 establishing common rules for direct support schemes under the common agricultural policy of the European Community (OJ No. L160, 26.6.1999, p.113)("the Council Regulation").

They apply to Wales, save that, in relation to payments under an IACS support scheme, they apply in so far as the National Assembly is the "relevant competent authority" within the meaning of the Integrated Administration and Control System Regulations 1993 (S.I. 1993/1317, as last amended by S.I. 2000/2573).

Article 4 of the Council Regulation permits Member States to reduce the amounts of payments under the support schemes listed in the Annex to that Regulation where (amongst other things) the total amounts of payments granted under such support schemes in respect of a calendar year exceed limits to be decided by the Member State in question. In the United Kingdom that limit has been set at nil, and the reduction is therefore applicable in relation to all payments under the specified support schemes. The amounts by which such payments are reduced are required to be made available as additional Community support for any of the rural development measures specified in Article 5(2) of the Council Regulation, in so far as they apply in the Member State concerned.

Mae'r Rheoliadau hyn felly yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu, yn ôl fel y digwydd, y Bwrdd Ymyrraeth, dynnu cyfran benodedig (2.5% yn y flwyddyn 2001, 3.0% yn y flwyddyn 2002, 3.5% yn y blynnyddoedd 2003 a 2004, a 4.5% yn y blynnyddoedd 2005 a 2006) o unrhyw daliad y maent yn ei wneud yn unol ag unrhyw un o'r cynlluniau cymorth a enwyd, ac mae'r symiau a dynnir felly i'w defnyddio yn unol â'r Erthygl 5(2) a enwyd (rheoliad 4).

Mae Arfarniad Rheoleiddio wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn ac mae ar gael oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Yr Adran Amaethyddiaeth, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

These Regulations accordingly require the National Assembly for Wales, or as the case may be, the Intervention Board to deduct a specified proportion (2.5% in the year 2001, 3.0% in the year 2002, 3.5% in the years 2003 and 2004, and 4.5% in the years 2005 and 2006) from any payment they make pursuant to any of the said support schemes, the amounts thus deducted to be applied in accordance with the said Article 5(2) (regulation 4).

A Regulatory Appraisal has been prepared in respect of these Regulations and is available from the National Assembly for Wales, Agriculture Department, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2000 Rhif 3294 (Cy. 216)

2000 No. 3294 (W. 216)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU**AGRICULTURE, WALES****Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y
Polisi Amaethyddol Cyffredin
(Modwleiddio) (Cymru) 2000****The Common Agricultural Policy
Support Schemes (Modulation)
(Wales) Regulations 2000***Wedi'u gwneud**14 Rhagfyr 2000**Made**14th December 2000**Yn dod i rym**1 Ionawr 2001**Coming into force**1st January 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(a) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(b) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:-

The National Assembly for Wales, being designated(a) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(b) in relation to the common agricultural policy of the European Community, in exercise of the powers conferred on it by the said section 2(2) hereby makes the following Regulations:-

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2001.

Title and commencement

1. These Regulations may be cited as the Common Agricultural Policy Support Schemes (Modulation) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 1st January 2001.

Cymhwys

2.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Application

2.-(1) Subject to paragraph (2), these Regulations shall apply to Wales.

(2) Mewn perthynas â thaliadau i ffermwr o dan unrhyw gynllun cymorth IACS, bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i'r graddau, a dim ond i'r graddau, mai'r Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod cymwys perthnasol mewn perthynas â daliad y ffermwr.

(2) In relation to payments to a farmer under any IACS support scheme, these Regulations shall apply, and shall apply only, in so far as the National Assembly is the relevant competent authority in relation to the farmer's holding.

Dehongli

3.-(1) Yn y Rheoliadau hyn –

ystyr "atodiad ALIFP" ("*LFA supplement*") yw taliad sy'n cael ei wneud o dan Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1323/1990 yn sefydlu cymorth penodol ar gyfer ffermio defaid a geifr yn rhai o ardaloedd llai ffafriol y

Interpretation

3.-(1) In these Regulations –

"agrimonetary compensation" ("*iawndal amaeth-ariannol*") means a payment made pursuant to Articles 4 or 5 of the Agrimonetary Regulation by way of supplement to a payment ("the principal payment") made pursuant to a support scheme;

(a) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 1999 (OS 1999/2788) ("y Gorchymyn"). Darperir pŵer y Cynulliad Cenedlaethol, fel corff sydd wedi'i ddynodi mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, i wneud rheoliadau sy'n ymestyn i ddaliadau sy'n cynnwys tiroedd y tu allan i Gymru gan baragraff 2(b) o Atodlen 2 i'r Gorchymyn.

(b) 1972 p.68.

(a) By virtue of the European Communities (Designation) (No.3) Order 1999 (S.I.1999/2788) ("the Order"). The National Assembly's power to make, as a body designated in relation to the common agricultural policy of the European Community, regulations which extend to holdings which include land situated outside of Wales is confirmed by paragraph 2(b) of Schedule 2 to the Order.

(b) 1972 c.68.

Gymuned(a), fel atodiad i daliad premiwm i gynhyrchydd cig dafad neu gig gafr;

ystyr “awdurdod cymwys perthnasol” (“*relevant competent authority*”) yw’r awdurdod sy’n awdurdod cymwys perthnasol o fewn ystyr y Rheoliadau System Integredig Gweinyddu a Rheoli 1993(b);

ystyr “blwyddyn gynllun” (“*scheme year*”) yw’r deuddeng mis y gwneir taliadau ar eu cyfer yn unol â’r cynllun cymorth o dan sylw;

ystyr “blwyddyn gynllun berthnasol” (“*relevant scheme year*”) yw’r flwyddyn gynllun sy’n dechrau yn 2001 neu mewn unrhyw flwyddyn ddilynol hyd at a chan gynnwys 2006;

ystyr “Bwrdd Ymyrraeth” (“*Intervention Board*”) yw’r Bwrdd Ymyrraeth ar gyfer Cynhyrchion Amaethyddol a sefydlwyd o dan adran 6(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;

ystyr “cynllun cymorth” (“*support scheme*”) yw unrhyw gynllun cymorth a restrir yn yr Atodlen i Reoliad y Cyngor;

ystyr “cynllun cymorth IACS” (“*IACS support scheme*”) yw –

- (a) unrhyw gynllun cymorth a bennir yn Erthygl 1 o Reoliad y Cyngor 3508/92, fel y mae’r cynllun hwnnw’n effeithiol ar y dyddiad y gwneir y Rheoliadau hyn;
- (b) unrhyw gynllun sy’n darparu ar gyfer atodiadau ALIFf; ac
- (c) unrhyw gynllun ar gyfer talu cymorth fel iawndal amaeth-ariannol;

Ystyr “cynlluniau’r Bwrdd” (“*Board Schemes*”) yw cynlluniau cymorth y mae’r Bwrdd Ymyrraeth yn gyfrifol am wneud taliadau mewn perthynas a hwy;

ystyr “y Cynulliad Cenedlaethol” (“*the National Assembly*”) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

mae i “daliad” yr ystyr a roddir i “*holding*” gan Erthygl 1(4) o Reoliad y Cyngor 3508/92;

ystyr “dibenion perthnasol” (“*relevant purposes*”) yw dibenion unrhyw daliad a wneir yn unol ag unrhyw fesur sy’n gweithredu unrhyw un o ddarpariaethau Erthyglau 13 i 24 (yn gynhwysol) neu Erthygl 31 o’r Rheoliad Datblygu Gwledig;

mae i “ffermwr” yr ystyr a roddir i “*farmer*” gan Erthygl 1(4) o Reoliad y Cyngor 3508/92;

“the Agrimonetary Regulation” (“*y Rheoliad Amaeth-ariannol*”) means Council Regulation (EC) No. 2799/98 establishing agrimonetary arrangements for the euro(a);

“Board schemes” (*cynlluniau’r Bwrdd*) means support schemes in relation to which the Intervention Board is responsible for making payments;

“the Council Regulation” (“*Rheoliad y Cyngor*”) means Council Regulation (EC) No.1259/1999(b) establishing common rules for direct support schemes under the common agricultural policy of the European Community;

“Council Regulation 3508/92” (*Rheoliad y Cyngor 3508/92*) means Council Regulation (EEC) No. 3508/92 establishing an integrated administration and control system for certain Community aid schemes(c);

“farmer” (“*ffermwr*”) has the meaning given to it by Article 1(4) of Council Regulation 3508/92;

“holding” (“*daliad*”) has the meaning given to it by Article 1(4) of Council Regulation 3508/92;

“IACS support scheme” (“*cynllun cymorth IACS*”) means –

- (a) any support scheme specified in Article 1 of Council Regulation 3508/92, as that scheme has effect at the date on which these Regulations are made;
- (b) any scheme providing for LFA supplements; and
- (c) any scheme for the payment of aid by way of agrimonetary compensation;

“Intervention Board” (“*Bwrdd Ymyrraeth*”) means the Intervention Board for Agricultural Produce established under section 6(1) of the European Communities Act 1972;

“LFA supplement” (“*atodiad ALIFf*”) means a payment made under Council Regulation (EEC) No. 1323/1990 instituting specific aid for sheep and goat farming in certain less-favoured areas of the Community (d), by way of supplement to a payment of premium made to a producer of sheepmeat or goatmeat;

“the National Assembly” (“*y Cynulliad Cenedlaethol*”) means the National Assembly for Wales;

(a) OJ Rhif L132, 23.5.90, t.17.

(b) OS 1993/1317, a ddiwygiwyd gan OS 1994/1134, 1997/1148, 1999/1820 a 2000/2573.

(a) OJ No. L349, 24.12.98, p.1.

(b) OJ No. L160, 26.6.1999, p.113.

(c) OJ No. L355, 5.12.92, p.1, last amended by Council Regulation (EC) No. 1593/2000 (OJ No. L182, 21.7.2000, p.4).

(d) OJ No. L132, 23.5.90, p.17.

ystyr “iawndal amaeth-ariannol” (“*agrimonetary compensation*”) yw taliad sy’n cael ei wneud yn unol ag Erthyglau 4 neu 5 o’r Rheoliad Amaeth-ariannol fel atodiad i daliad (“y prif daliad”) sy’n cael ei wneud yn unol â chynllun cymorth;

ystyr “y Rheoliad Amaeth-ariannol” (“*the Agrimonetary Regulation*”) yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2799/98 sy’n sefydlu trefniadau amaeth-ariannol ar gyfer yr ewro(a);

ystyr “y Rheoliad Datblygu Gwledig” (“*the Rural Development Regulation*”) yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1257/1999(b) ar gymorth ar gyfer datblygu gwledig o Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF) ac sy’n diwygio a diddymu Rheoliadau penodol;

ystyr “Rheoliad y Cyngor” (“*the Council Regulation*”) yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1259/1999(c) sy’n sefydlu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol o dan bolisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd;

ystyr “Rheoliad y Cyngor 3508/92” (“*Council Regulation 3508/92*”) yw Rheoliad y Cyngor (EEC) 3508/92 sy’n sefydlu system integredig gweinyddu a rheoli ar gyfer rhai o gynlluniau cymorth y Gymuned(ch); ac

ystyr “y swm perthnasol” (“*the relevant amount*”) yw unrhyw swm a fyddai’n daladwy gan y Cynulliad Cenedlaethol, neu, yn ôl fel y digwydd, y Bwrdd Ymyrraeth, yn unol â’r cynllun cymorth o dan sylw, pe na bai rheoliad 4 yn gymwys.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae taliad yn cael ei wneud yn unol â chynllun cymorth os yw’r canlynol yn wir-

- (a) ei fod yn cael ei wneud yn unol â gofynion y cynllun hwnnw; neu
- (b) i’r graddau y mae’n cael ei ariannu gan adran Warantu Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop, ei fod yn cael ei wneud yn unol ag unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol i weithredu’r cynllun hwnnw.

Modwleiddio taliadau cynlluniau cymorth

4.-(1) Er mwyn cyfrifo swm unrhyw daliad y mae gan unrhyw berson hawl i’w gael yn unol ag unrhyw gynllun cymorth ar gyfer blwyddyn gynllun

(a) OJ Rhif L349, 24.12.98, t.1.

(b) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t. 80.

(c) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.113.

(ch) OJ Rhif L355, 5.12.92, t. 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1036/1999.

“the relevant amount” (“*y swm perthnasol*”) means any amount which, if regulation 4 did not apply, would be payable by the National Assembly or, as the case may be, the Intervention Board pursuant to the support scheme in question;

“relevant competent authority” (“*awdurdod cymwys perthnasol*”) means the authority which is the relevant competent authority within the meaning of the Integrated Administration and Control System Regulations 1993(a);

“relevant purposes” (“*dibenion perthnasol*”) means the purposes of any payment made pursuant to any measure which implements any provision of Articles 13 to 24 (inclusive) or Article 31 of the Rural Development Regulation;

“relevant scheme year” (“*blwyddyn gynllun berthnasol*”) means the scheme year beginning in 2001 or in any subsequent year up to and including 2006;

“the Rural Development Regulation” (“*y Rheoliad Datblygu Gwledig*”) means Council Regulation (EC) No. 1257/1999(b) on support for rural development from the European Agricultural Guidance and Guarantee Fund (EAGGF) and amending and repealing certain Regulations;

“scheme year” (“*blwyddyn gynllun*”) means the twelve months in respect of which payments are made pursuant to the support scheme in question; and

“support scheme” (“*cynllun cymorth*”) means any support scheme listed in the Annex to the Council Regulation.

(2) For the purposes of these Regulations, a payment is made pursuant to a support scheme if -

- (a) it is made in accordance with the requirements of that scheme; or
- (b) in so far as it is financed by the Guarantee section of the European Agricultural Guidance and Guarantee Fund, it is made pursuant to any determination made by the National Assembly in implementation of that scheme.

Modulation of support scheme payments

4.-(1) For the purposes of calculating the amount of any payment to which any person is entitled pursuant to any support scheme in respect of a relevant scheme

(a) S.I. 1993/1317, amended by S.I. 1994/1134, 1997/1148, 1999/1820 and 2000/2573.

(b) OJ No. L160, 26.6.1999, p.80.

berthnasol, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, neu y Bwrdd Ymyrraeth (yn achos taliadau o dan gynlluniau'r Bwrdd), dynnu o'r swm perthnasol y gyfran benodedig o'r swm hwnnw, a rhaid iddo ddefnyddio'r swm a dynnir felly fel arian at un neu ragor o'r dibenion perthnasol.

(2) At ddibenion paragraff(1), ymdrinnir â thaliad iawndal amaeth-ariannol fel petai wedi'i wneud ar gyfer y flwyddyn gynllun y gwnaed y prif daliad y mae'n atodiad iddo ar ei chyfer.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y gyfran benodedig" yw –

- (a) 2.5% ar gyfer y flwyddyn gynllun sy'n dechrau yn 2001;
- (b) 3.0% ar gyfer y flwyddyn gynllun sy'n dechrau yn 2002;
- (c) 3.5% ar gyfer y blynyddoedd cynllun sy'n dechrau yn 2003 a 2004; ac
- (ch) 4.5% ar gyfer y blynyddoedd cynllun sy'n dechrau yn 2005 a 2006;

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

14 Rhagfyr 2000

Dirpwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

year, the National Assembly or (in the case of payments under Board schemes) the Intervention Board shall deduct from the relevant amount the specified proportion of that amount, and shall apply the sum so deducted by way of funds for one or more of the relevant purposes.

(2) For the purposes of paragraph (1), a payment of agrimonetary compensation shall be treated as made in respect of the scheme year in respect of which the principal payment which it supplements was made.

(3) In this regulation, "the specified proportion" means –

- (a) in respect of the scheme year which begins in 2001, 2.5%;
- (b) in respect of scheme year which begins in 2002, 3.0%;
- (c) in respect of the scheme year which begins in 2003 and that which begins in 2004, 3.5%; and
- (d) in respect of the scheme year which begins in 2005 and that which begins in 2006, 4.5%.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

14th December 2000

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 3294 (Cy. 216)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y
Polisi Amaethyddol Cyffredin
(Modwleiddio) (Cymru) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 3294 (W. 216)

AGRICULTURE, WALES

The Common Agricultural Policy
Support Schemes (Modulation)
(Wales) Regulations 2000

©[®] Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00

W/167/01/01

ON

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090147-9



9 780110 901473